# Sgiliau Cymdeithasol

Mae gallu rhyngweithio'n briodol â phlant eraill a rhannu adnoddau yn sgìl allweddol a fydd yn helpu eich plentyn pan fydd yn dechrau yn yr ysgol




## Gwneud ffrindiau

Gwahoddwch ffrindiau draw i chwarae ac ewch â'ch plentyn draw i chwarae gyda ffrindiau mor aml ag y gallwch. Mae chwarae â brodyr a chwiorydd hefyd yn ffordd dda o ryngweithio. Po fwyaf o gyfleoedd y mae eich plentyn yn eu cael i gymysgu ag eraill, y mwyaf y bydd yn ymarfer cymdeithasu. Wrth chwarae, gallwch chi fodelu ymadroddion cymdeithasol defnyddiol, er enghraifft 'fy nhro i yw hi nawr os gwelwch yn dda' neu 'gadewch i ni rannu'. Gallech drefnu cwrdd i chwarae â chyd-ddisgyblion y dyfodol os yw hynny'n bosibl.

## Gemau Grŵp

Chwaraewch gemau grŵp sy'n cynnwys cymryd eich tro. Gydag amser, bydd plant yn dysgu bod rhyngweithio cymdeithasol yn hwyl, ac er mwyn i'r gêm weithio, mae angen iddynt ystyried ei gilydd, ac mae'n rhaid i bawb gymryd rhan weithredol.

- Adeiladu tŵr: cymerwch eich tro wrth roi'r blociau ar ben tŵr hyd nes y bydd yn cwympo
- Chwythu swigod: cymerwch eich tro i chwythu swigod.



## Gemau Bwrdd

Mae gemau bwrdd yn weithgaredd ardderchog ar gyfer plant oedran cyn ysgol hŷn. Dylai fod gan y rhain sawl chwaraewr (hyd yn oed os byddwch yn dechrau â 2), rheolau ac amcan (e.e. mewn *Nadroedd ac Ysgolion*, yr amcan yw cyrraedd y diwedd yn gyntaf). Gall dysgu dilyn rheolau fod yn dasg gymhleth i blentyn a chadwch y gêm yn bositif wrth gystadlu â ffrindiau neu aelodau o'r teulu. Gall plant iau ddechrau drwy chwarae gemau cardiau syml neu gemau bwrdd sylfaenol iawn.

## Chwarae Rôl

Mae chwarae rôl, neu chwarae mewn gwisgoedd, yn rhan bwysig o ddysgu sut i gymdeithasu. Yn ystod y math hwn o chwarae, mae plant yn gwneud synnwyr o'u byd a'r bobl o'u cwmpas trwy chwarae rôl. Dyma sut maent yn "ymarfer" bod yn oedolyn, ynghyd ag ymddwyn a rhyngweithio fel oedolyn. Maent hefyd yn perfformio'u harferion a'u normau cymdeithasol eu hunain. Mae chwarae rôl yn weithgaredd dysgu cymdeithasol gwych i blant sy'n chwarae ag un neu fwy o ffrindiau, yn ogystal â phlant iau sy'n chwarae ar eu pennau eu hunain. Er bod y plentyn ar ei ben ei hun, mae'r gweithgaredd yn ymwneud ag esgus rhyngweithio ag eraill, sy'n ffordd wych o berfformio rhyngweithiad yn ddiogel. Rhowch gyfleoedd yn y cartref drwy gael adran ar gyfer gwisgoedd yn ystafell eich plentyn. Darparwch ddillad a phropiau o themâu gwahanol a'u newid yn aml i annog syniadau newydd.

BBC BITESIZE – How to help your child get on with other children.